Gruffudd Jones, Llanddowror, 1683–1761

Diwygiwr crefyddol ac addysgol, “Seren fore’r Diwygiad Methodistaidd”

Yr oedd Gruffudd Jones yn gymeriad mor bwysig yn hanes ein cenedl yn y ddeunawfed ganrif fel y rhoddwyd iddo’r enw ‘Seren Fore’r Diwygiad Methodistaidd’. Gosododd sylfeini ar gyfer y dyfodol trwy sylweddoli gwerth llythrennedd ac addysg i werin Cymru, a thrwy ei waith galluogwyd y Cymry i ddarllen y Beibl am y tro cyntaf. Ar sail gweledigaeth Gruffudd Jones y datblygodd yr ysgol Sul ac yna addysg gyffredinol yng Nghymru.

Fe’i ganed ym Mhant-yr-efel, Pen-boyr, Caerfyrddin, yn fab i Gruffydd ac Elinor John. Yn ystod ei ddyddiau cynnar bu’n fugail ac ni chafodd ond ychydig addysg yn ysgol y pentref. Wedi iddo benderfynu mynd yn glerigwr aeth i Ysgol Ramadeg y Frenhines Elisabeth, Caerfyrddin. Tua 1707 gofynnodd am gael ei ordeinio ond fe’i gwrthodwyd fwy nag unwaith. Yn y diwedd, trwy ddylanwad Evan Evans, Ficer Clydai, Penfro, fe’i hordeiniwyd yn ddiacon ar 19 Medi 1708 gan George Bull, Esgob Tyddewi, ac yna’n offeiriad ar y 25ain o’r un mis. Yn ystod y blynyddoedd dilynol bu’n gurad ym Mhen-y-bryn, Aberteifi, Penrieth a Thalacharn. Yn Nhalacharn yr oedd hefyd yn athro ysgol SPCK (Society for the Propagation of Christian Knowledge). Fe’i gwnaed yn rheithor Llandeilo-Abercywyn, Caerfyrddin ar 1 Gorffennaf 1711 ac erbyn hyn yr oedd ei enw’n mynd ar led fel pregethwr grymus; tyrrai pobl yn eu miloedd i wrando arno. Oherwydd ei boblogrwydd daeth i sylw’r awdurdodau a chwynodd Esgob Tyddewi, Adam Otteley, amdano am ei fod yn pregethu ar ddyddiau’r wythnos mewn eglwysi, mynwentydd ac ar y mynyddoedd.

Daeth Gruffudd Jones yn aelod gohebol o’r SPCK ac ymgeisiodd am swydd ysgolfeistr a chenhadwr yn Tranquebar, India, o dan yr East India Mission. Cynigiwyd y swydd iddo ond fe

dynnodd yn ôl yn ddiweddarach. Rhwng 1714 a 1716 bu rhaid iddo ymddangos nifer o weithiau gerbron llys yr esgob yng Nghaerfyrddin am iddo anwybyddu cyfreithiau ac arferion yr Eglwys. Priododd ym 1719 â Margaret, chwaer ei noddwr, Syr John Phillips.

Ym 1731 ysgrifennodd at yr SPCK yn awgrymu y dylent sefydlu "Welch School" yn Llanddowror. Roeddent wedi sefydlu 98 o ysgolion yng Nghymru rhwng 1699 a 1727, ond sylwodd Gruffudd Jones nad oeddent wedi agor un ers tro a bod rhai o'r ysgolion gwreiddiol wedi cau. Felly dechreuodd yntau sefydlu ysgolion cylchynol gyda'r bwriad o'u defnyddio'n gyfrwng i achub eneidiau trwy arwain pobl at Grist. Ni wyddom union ddyddiad agor yr un gyntaf, ond erbyn 1737 yr oedd yna 37 o ysgolion gyda 2,400 o ddisgyblion. Gwnaeth yr ysgolion hyn waith aruthrol yn cyflwyno addysg i bobl gyffredin am y tro cyntaf. Ysgolion dros dro oedd y rhain a gynhelid am gyfnod o dri mis, ran fynychaf yn ystod misoedd y gaeaf pan oedd llai o waith ar y ffermydd, a hynny ar noson waith. Hyfforddwyd yr athrawon yn Llanddowror gan Gruffudd Jones ac yr oeddent hwy yn eu tro yn dysgu plant ac oedolion i ddarllen y Beibl yn y Gymraeg ac yn dysgu Catecism yr Eglwys. Cafodd gymorth parod Madam Bridget Bevan a ddefnyddiodd ei chysylltiadau i gael arian gan foneddigion Llundain a Chaerfaddon er mwyn cyflogi athrawon a phrynu llyfrau i'r disgyblion. Bu'r ysgolion hyn yn llwyddiant ysgubol. Ym 1761, blwyddyn marw Gruffudd Jones, datganwyd yn *The Welch Piety* (adroddiad blynyddol yr ysgolion) fod 3,495 o ysgolion wedi eu sefydlu a thros 158,000 o ddisgyblion wedi eu haddysgu ynddynt. Yn ogystal â threfnu'r ysgolion bu hefyd yn ddiwyd yn ysgrifennu tua 30 o lyfrau a phamffledi.

Bu gwrthwynebiad i'r ysgolion gan rai mewn awdurdod yn yr Eglwys a hynny'n bennaf oherwydd cysylltiad Gruffudd Jones â'r Methodistiaid. Bu farw yng nghartref Madam Bevan yn Nhalacharn yn 77 oed a chladdwyd ei weddillion yn eglwys Llanddowror.